

### Trosolwg

Mae'r uned hon ar gyfer unrhyw un o unrhyw wlad neu ddiwylliant sy'n gweithio gyda phobl o wlad neu ddiwylliant arall.

Byddech chi'n gwneud hyn

- 1 pan fyddwch chi'n gweithio gyda phobl o wlad wahanol neu o ddiwylliannau amrywiol a gafodd eu geni a'u haddysgu yma neu sy'n byw neu'n gweithio yma neu dramor.
- 2 pan fyddwch chi'n gweithio gydag unigolion neu grwpiau o un neu ragor o wledydd neu ddiwylliannau.
- 3 pan fyddwch chi'n gweithio yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu nider-elw.
- 4 pan fyddwch chi'n gweithio ym maes gwaith gwirfoddol, cymorth neu ddyngarol.
- 5 pan fyddwch chi'n gweithio gyda phobl y tu mewn neu y tu allan i'ch mudiad, wyneb yn wyneb neu'n defnyddio'r ffôn, llythyr neu e-bost.
- 6 pan fyddwch chi'n gweithio gyda'ch rheolwr neu gyda chydweithwyr ar yr un lefel â chi neu ar lefel wahanol, gyda chwsmeriaid, cleientiaid neu fyfyrwyr, fel aelod o dîm amlddiwylliannol, fel aelod o dîm prosiect sydd wedi'i leoli yn y du neu'n rhyngwladol, neu ar y cyd â phartneriaid nad ydynt o'r du.
- 7 pan fyddwch chi'n gweithio gyda phobl yn y tymor hir neu ar gyfer gweithrediadau unigol i ddarparu gwasanaeth, gwybodaeth neu gyngor neu i gynnal ymchwil.

### Y manteision a'r achos busnes dros wneud hyn yn effeithiol

- 1 Gwell perthynas gydlynol rhwng gweithwyr o wledydd gwahanol a diwylliannau amrywiol.
- 2 Llai o hiliaeth a llai o straen yn y gweithle a llai o wastraff o ran amser, potensial ac asedau sy'n deillio o hyn.
- 3 Gwaith a gynhyrchir gan unigolion a thimau sy'n cwrdd â neu'n rhagori ar ofynion gwaith.
- 4 Gwasanaethau a ddarperir â sensitifrwydd ac yn briodol i bob defnyddiwr.
- 5 Defnyddwyr gwasanaeth sy'n fodlon ar y gwasanaeth y maent wedi'i gael.
- 6 Polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n gryfach.

Ystyried eich sylfaen gwerth a'ch disgwyliadau eich hun a sut mae eraill yn eu gweld, herio eich ystrydebau a'ch rhagfarnau eich hun, a rhai pobl eraill, cyfathrebu a gweithio gydag eraill mewn ffyrdd sy'n amlhau i'r eithaf berfformiad unigol a chynhyrchiant cyfundrefnol.

Mae'r safonau hyn yn disgrifio gweithio gyda phobl o wledydd gwahanol neu

# CFAIWS1W

## Datblygu eich sgiliau i weithio'n effeithiol gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol

---

ddiwylliannau amrywiol mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo rhyngweithio agored a llawn parch, a gwell dealltwriaeth a pherfformiad.

Mae'r uned hon yn cwmpasu'r sgiliau cyffredinol sydd eu hangen i weithio gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol. Mae'r unedau canlynol yn adeiladu ar hyn ac yn disgrifio gweithio rhyngddiwylliannol mewn sefyllfaoedd penodol.

- 1 Adeiladu perthnasoedd gwaith gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol (2 o safonau Gweithio Rhyngddiwylliannol).
- 2 Penodi pobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol (3 o safonau Gweithio Rhyngddiwylliannol).
- 3 Rheoli tîm amlddiwylliannol (4 o safonau Gweithio Rhyngddiwylliannol)
- 4 Rheoli darpariaeth gwasanaeth i bobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol (5 o safonau Gweithio Rhyngddiwylliannol).
- 5 Datblygu marchnadoedd newydd gyda gwledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol (6 o safonau Gweithio Rhyngddiwylliannol).
- 6 Cydnabod amrywiaeth wrth ddarparu gwasanaeth i'r cwsmer (23 o safonau Gwasanaeth i'r Cwsmer).

# CFAIWS1W

## Datblygu eich sgiliau i weithio'n effeithiol gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol

---

### Meini prawf perfformiad

#### *Rhaid i chi allu:*

- P1 cydnabod eich gwerthoedd, eich credoau a'ch arferion diwylliannol eich hun a sut y maent yn effeithio ar eich canfyddiadau a'ch disgwyliadau mewn sefyllfaoedd gwaith
- P2 mynd ati i geisio deall sut mae eich gwerthoedd, credoau, arferion diwylliannol a'ch defnydd o iaith yn ymddangos i bobl eraill
- P3 seilio eich barn am bobl ar eich profiad chi eich hun o ymwneud â nhw yn hytrach nag ar ragdybiaethau cyffredin, ystrydebau, eu hacen neu eu gwisg
- P4 herio ac addasu eich rhagdybiau eich hun yngly^n ag ymddygiad pobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol.
- P5 herio unrhyw ystrydebau, rhagfarn neu hiliaeth a fynegir gan bobl eraill amdanoch chi eich hun neu am eraill
- P6 cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n ddealladwy i'r bobl o'r gwledydd neu'r diwylliannau rydych chi'n gweithio gyda nhw
- P7 rhoi digon o amser ac ymdrech ac ymateb yn hyblyg ac yn gadarnhaol fel bod eich arfer gwaith yn denu ac yn cynnwys pobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol
- P8 gweithio mewn ffyrdd sy'n cydbwysu disgwyliadau pobl eraill ohonoch chi â'r angen i gyflawni amcanion cyfundrefnol
- P9 delio'n adeiladol â sefyllfaoedd sy'n ymddangos yn aneglur i chi neu'n ddryslyd pan fyddwch chi'n gweithio gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol a dangos parch at unigolion pan na fyddwch chi'n gallu deall neu empathyddio â'u safbwyntiau neu eu hymddygiad
- P10 ystyried effaith eich ymddygiad a'ch defnydd o iaith pan fyddwch chi'n gweithio gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol a'u haddasu i wella canlyniadau yn y dyfodol

# CFAIWS1W

## Datblygu eich sgiliau i weithio'n effeithiol gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol

---

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

#### Dylanwadau diwylliannol

- K1 sut y gall gwahaniaethau neu debygrwydd rhwng eich ymddygiad diwylliannol chi ac ymddygiad pobl eraill newid neu effeithio ar agweddau, disgwyliadau, cyfathrebu ac arferion gwaith. (er enghraifft cadw amser, amserlenni, prosesau penderfynu, rhagdybiaethau ynghylch statws a rôl, agweddau tuag at ddynion neu fenywod, dulliau ac arferion cyfathrebu, perthnasoedd busnes, arferion cyfarfodydd busnes, agweddau tuag at emosiwn a lefelau o hierarchaeth a ffurfioldeb.)
- K2 sut y gall eich gwerthoedd a'ch credoau chi, yn ogystal â rhai pobl eraill, newid wrth i ddiwylliant ddatblygu neu wrth i chi neu nhw gael eich cyflwyno i ddiwylliant gwahanol. (er enghraifft, trwy gael eich magu mewn gwlad nad yw'n wlad enedigol i'ch rhieni neu i'ch mam-gu a'ch tad-cu, trwy fyw neu weithio dramor, trwy fyw neu weithio gyda phobl o wledydd a diwylliannau gwahanol.)
- K3 sut i seilio eich barn a'ch gweithredoedd ynghylch pobl o wlad wahanol neu o ddiwylliant amrywiol arnyn nhw fel unigolyn ac nid ar ragdybiaethau cyffredin, ystrydebau, rhagfarn neu hen wybodaeth. (er enghraifft, trwy ofyn i'r person, trwy eu barnu yn ôl eu gwaith, trwy ddod i'w hadnabod.)
- K4 sut y gall ystrydebau diwylliannol gael eu hategu gan y ffordd rydych chi ac eraill yn ymddwyn ac yn cyflwyno gwybodaeth am eich gwlad neu eich diwylliant

#### Cyfathrebu ac iaith

*Mae angen i chi wybod a deall:*

- K5 sut y gall eich defnydd o iaith, iaith gorfforol, ystumiau a thôn eich llais ymddangos i bobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol a sut y gall eu rhai hwythau effeithio ar eich rhagdybiaethau chi ohonyn nhw
- K6 canlyniadau posib yn sgîl diffyg dealltwriaeth neu offer cyfathrebu aneffeithiol. (Er enghraifft, anghydfod, camddealltwriaeth ynghylch disgwyliadau, gwrthdaro posib.)
- K7 yr arferion cwrtseisi a ddefnyddir gennych chi a'r bobl o'r gwledydd neu'r diwylliannau rydych chi'n gweithio gyda nhw a sut y gall y rhain effeithio ar y ffordd mae pobl yn dirnad ei gilydd. (Er enghraifft, anghwrteisi ymddangosiadol a achosir gan ddiffyg defnydd o 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' neu annidwylledd ymddangosiadol a achosir gan ormod o ddefnydd o'r un geiriau.)
- K8 ffyrdd o leihau camddealltwriaeth a gwella cyfathrebu gyda phobl sy'n siarad mamiaith wahanol i'ch un chi. (Er enghraifft, cymryd amser i wrando'n ofalus ar yr hyn maent yn ei ddweud go iawn, dysgu'r arferion ar gyfer cyflwyniadau a chyfarchion, peidio â defnyddio eich rhuglder

## CFAIWS1W

### Datblygu eich sgiliau i weithio'n effeithiol gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol

---

eich hun fel ffordd o drechu eraill, dysgu ambell ymadrodd syml yn eu hiaith nhw, ystumio, osgoi priod-ddulliau, esbonio acronymau, defnyddio lluniau a diagramau, dysgu eu hiaith nhw.)

- K9 y sialensiau wrth gyfathrebu â phobl o ddiwylliant arall sy'n rhannu'r un famiaith â chi. (Er enghraifft, gwahaniaethau mewn geirfa, sillafu, acen, ymadroddion ac uniongyrchedd.)

#### Perthnasoedd gwaith

*Mae angen i chi wybod a deall:*

- K10 sut y gall darganfod tir cyffredin gyfrannu at berthnasoedd gwaith da rhwng pobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol

#### Hyfforddiant a chefnogaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

- K11 pa hyfforddiant neu gefnogaeth i ddatblygu eich sgiliau ar gyfer gweithio gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol allai fod yn berthnasol i chi ac â phwy y dylech chi siarad er mwyn cael mynediad iddo. (Er enghraifft, hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iaith, hyfforddiant iaith, ESOL (English for Speakers of Other Languages), EFL (English as a Foreign Language), hyfforddiant mewn sgiliau rhyngddiwylliannol, cyrsiau hyfforddi am ddiwylliannau penodol.)

#### Cyfreithiau a rheoliadau cydraddoldeb

*Mae angen i chi wybod a deall:*

- K12 pa hyfforddiant neu gefnogaeth i ddatblygu eich sgiliau ar gyfer gweithio gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol allai fod yn berthnasol i chi ac â phwy y dylech chi siarad er mwyn cael mynediad iddo. (Er enghraifft, hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iaith, hyfforddiant iaith, ESOL (English for Speakers of Other Languages), EFL (English as a Foreign Language), hyfforddiant mewn sgiliau rhyngddiwylliannol, cyrsiau hyfforddi am ddiwylliannau penodol.)
- K13 y cyfreithiau, rheoliadau a chanllawiau cwmni sy'n deddfu sut y disgwylir ichi ymddwyn gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol, sut i'w gweithredu mewn perthynas â'ch gwaith a ble i gael mwy o wybodaeth a chyngor amdanynt. (Er enghraifft, deddfwriaeth cydraddoldeb, polisïau a gwerthoedd y cwmni, codau ymddygiad.)
- K14 beth i'w wneud neu â phwy i siarad os ydych chi neu gydweithiwr yn teimlo eich bod chi'n cael eich trin yn annheg yn y gwaith. (Er enghraifft, rheolwr perthnasol, cynrychiolydd undeb llafur.)

# CFAIWS1W

## Datblygu eich sgiliau i weithio'n effeithiol gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol

---

### Ymddygiadau

Rhoi sylfaen i nodweddion personol

Nid yw'r rhain yn rhan orfodol o'r safon ond nodweddion dymunol ydynt a dichon y bydd pobl a chanddynt brofiadau diwylliannol gwahanol sy'n gweithio gyda'i gilydd angen yr agweddau hyn. Maent yn cynrychioli'r hyn mae pobl sy'n ffafriol i weithio rhyngddiwylliannol yn dyheu amdano ac yn tyfu tuag ato o bosib.

- 1 Rydych chi'n mwynhau gweithio ochr yn ochr â phobl a chanddynt brofiadau diwylliannol gwahanol a safbwyntiau gwahanol i'ch rhai eich hun ac rydych chi'n mynd ati i geisio gwerthfawrogi pam mae gwahaniaethau a thebygrwydd yn bodoli o bosib
- 2 Rydych chi'n medru ystyried sut mae pobl eraill efallai'n gweld eich arferion gwaith eich hun ac rydych chi'n barod i drafod ffyrdd newydd o weithio
- 3 Rydych chi'n agored i bosibiliadau cadarnhaol amrywiaeth ddiwylliannol i gynhyrchu syniadau a datblygu cynhyrchiant yn y gweithle
- 4 Rydych chi'n sensitif i'r gwahanol lefelau o sgiliau Saesneg sydd gan bobl ac rydych chi'n fodlon addasu eich iaith er lles cyd-ddealltwriaeth.
- 5 Rydych chi'n sensitif i sut y gallai eich defnydd o iaith, tôn eich llais a'ch ymddygiad gael eu dehongli gan eraill
- 6 Rydych chi'n medru edrych yn feirniadol ar arferion gwaith a phrosiectau a gwneud cyfraniadau a fwriedir i wella cydweithrediad a dealltwriaeth rhyngddiwylliannol
- 7 Rydych chi'n gweithio tuag at well dealltwriaeth feirniadol o wahaniaethau tra'n gwerthfawrogi mai proses gydol oes yw hon
- 8 Rydych chi'n ymwybodol bod eraill yn arddel cydraddoldeb ac iawnderau dynol mewn ffyrdd gwahanol, ond rydych chi'n gwneud eich gorau i gymryd agwedd egwyddorol sy'n adlewyrchu sut yr hoffech chi eich hun gael eich trin

# CFAIWS1W

Datblygu eich sgiliau i weithio'n effeithiol gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol

---

**Datblygwyd gan** CFA Business Skills @ Work

---

**Fersiwn rhif** 1

---

**Dyddiad cymeradwyo** Rhagfyr 2009

---

**Dyddiad adolygu dangosol** Rhagfyr 2014

---

**Dilysrwydd** Cyfredol

---

**Statws** Gwreiddiol

---

**Sefydliad cychwynnol** CILT

---

**RCU gwreiddiol** CFAIWS1W

---

**Galwedigaethau perthnasol** Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith; Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi; Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal; Meddygaeth a Deintyddiaeth; Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau Allie; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Gwasanaethau Cyhoeddus; Datblygiad a Lles Plentyn; Amaethyddiaeth; Galwedigaethau Proffesiynol; Rheolwyr ac Uwch Swyddogion; Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; Gweithwyr Proffesiynol Ymchwil; Llyfrgellwyr a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig; Gweithwyr Proffesiynol Peirianeg; Cefnogi Systemau; Archifau Ardal lleol; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol a Galwedigaethau Technegol; Rheolwyr Corfforaethol ac Uwch Swyddogion; Dadansoddwr Busnes; Rheolwyr a pherchenogion Lletygarwch; Peirianeg a thechnolegau gweithgynhyrchu; Peirianeg; Gweithrediadau a chynnal a chadw chludiant; Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig; Pensaernïaeth; Adeiladu ac adeiladu; Trefol, cynllunio gwledig a rhanbarthol; Menter manwerthu a masnachol; Manwerthu a chyfanwerthu; Warws a dosbarthu; Mentrau gwasanaeth; Lletygarwch ac arlwygo; Hamdden, teithio a thwristiaeth; Chwaraeon, hamdden ac adloniant; Teithio a thwristiaeth; Celfyddydau Perfformio; Y Cyfryngau a chyfathrebu; Cyhoeddi a gwasanaethau gwybodaeth; Hanes, athroniaeth a diwinyddiaeth; Diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol; Gwyddorau cymdeithasol; Daearyddiaeth; Cymdeithaseg a pholisi cymdeithasol; Gwleidyddiaeth; Iaith, llenyddiaeth a diwylliant; Ieithoedd, ieithoedd eraill, llenyddiaeth a diwylliant; Ieithyddiaeth; Addysg a hyfforddiant; Addysgu a darlithio; Cymorth dysgu uniongyrchol; Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith; Sylfeini ar gyfer dysgu a bywyd; Paratoi ar gyfer gwaith; Gweinyddu; Rheoli busnes; Marchnata a gwerthu;

## CFAIWS1W

### Datblygu eich sgiliau i weithio'n effeithiol gyda phobl o wledydd gwahanol neu ddiwylliannau amrywiol

---

Gyfraith a gwasanaethau cyfreithiol; Rheolwyr Cynhyrchu; Rheolwyr Swyddogaethol; Ansawdd a Cwsmeriaid Rheolwyr Gofal; Sefydliad Ariannol a Rheolwr Swyddfa; Mae rheolwyr yn Dosbarthu, Swyddogion y Gwasanaeth Amddiffynnol; Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Swyddogion; Mae rheolwyr yn Ffermio, Garddwriaeth, Coedwigaeth; Rheolwyr a pherchenogion Mewn Gwasanaethau Eraill; Gweithwyr Iechyd Proffesiynol; Gweithwyr Proffesiynol Addysgu; Gweithwyr Proffesiynol Cyfreithiol; Busnes a Gweithwyr Proffesiynol Ystadegol; Penseiri, Cynllunwyr Tref a Syrfewyr; Gweithwyr Proffesiynol Gwasanaethau Cyhoeddus; Gwyddoniaeth a Thechnegwyr Pheirianneg; Draughtpersons ac Arolygwyr Adeiladu; TG Galwedigaethau Darparu Gwasanaeth; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Iechyd; Therapyddion; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Lles cymdeithasol; Galwedigaethau Gwasanaethau Amddiffynnol; Artistig a Galwedigaethau Llenyddol; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Dylunio; Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt y cyfryngau; Chwaraeon a Galwedigaethau Ffitrwydd; Gweinyddu a Galwedigaethau Ysgrifenyddol; Llywodraeth a Sefydliadau Cysylltiedig; Cyfathrebu; Cyffredinol; Galwedigaethau Cysylltiedig ysgrifenyddol a; Galwedigaethau Crefftau Medrus; Crefftau Medrus Amaethyddol; Metal Ffurio, Weldio a Masnach Cysylltiedig; Metal Peiriannu, Gosod a Offeryn; Masnachau Cerbydau; Crefftau Trydanol; Crefftau Adeiladu; Crefftau Adeiladu; Tecstilau a Chrefftau Dillad; Crefftau argraffu; Crefftau Paratoi Bwyd; NEC Crefftau Medrus; Galwedigaethau Gwasanaeth Personol; Gwasanaethau Cysylltiedig Gofal Iechyd Personol a; Gwasanaethau Cysylltiedig Personol Gofal Plant a; Hamdden a Galwedigaethau Gwasanaeth Teithio; Trin gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig; Galwedigaethau Cadw Tŷ; Galwedigaethau Gwasanaethau Personol NEC; Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid Galwedigaethau; Cynorthwywyr Gwerthu a Arianwyr Manwerthu; Gwerthu Galwedigaethau perthnasol; Swyddi Gwasanaeth Cwsmeriaid; Prosesu, Offer a Pheiriannau; Gweithwyr broses; Offer a Pheiriannau; Cyfosodwyr a Gweithwyr arferol; Gweithwyr adeiladu; Gyrwyr Trafnidiaeth a Gweithwyr; Gyrwyr Machine symudol a Gweithwyr; Galwedigaethau Elfennol; Galwedigaethau Elfennol Amaethyddol; Galwedigaethau Elfennol Adeiladu; Proses elfennol Galwedigaethau Plant; Galwedigaethau Elfennol Storio Nwyddau; Galwedigaethau Elfennol Gweinyddiaeth; Galwedigaethau Elfennol Gwasanaethau Personol; Galwedigaethau Elfennol Glanhau; Galwedigaethau Elfennol Diogelwch; Galwedigaethau Gwerthu Elfennol; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol cludiant; Cyfreithiol Associates; Farmer; Gweithiwr fferm; Gweithredwr Peiriannau amaethyddol; Gyrwyr Tractor; Goruchwyliwr; Gweithiwr Fferm Cyffredinol; Farmer

---

#### Cyfes/Set

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhyngddiwylliannol o – gweithio gyda phobl o wahanol wledydd a diwylliannau amrywiol

---

#### Geiriau Allweddol